MENTER IAITH BRO MORGANNWG

"HYRWYDDO AC EHANGU'R DEFNYDD O'R GYMRAEG"

# ADRODDIAD BLYNYDDOL 2023/24

MENTER IAITH BRO MORGANNWG



# GAIR GAN Y CADEIRYDD

Croeso i adroddiad blynyddol Menter Iaith Bro Morgannwg, ac i fy "Gair Gan y Cadeirydd" cyntaf ers dechrau fel y Cadeirydd yn Rhagfyr 2023.
Mae'n anodd credu ond sefydlwyd Menter Iaith Bro Morgannwg ym mis Ionawr 2014, felly dros 10 mlynedd yn ôl erbyn hyn. Dwi'n falch i nodi fy mod wedi bod ynghlwm â'r Pwyllgor o'r dyddiau cynnar ac dw'i wedi gweld yn uniongyrchol y gwaith rhagorol a trawsnewidiol mae'r Fenter wedi cyflawni dros y blynyddoedd.
Hoffwn ddweud diolch enfawr i Gwenno Hughes am ei gwaith caled hi fel Cadeirydd dros y blynyddoedd diwethaf yn ystod cyfnod anodd iawn gyda'r holl heriau a ddaeth o ganlyniad i Covid yn troi popeth ar ei ben am ddwy flynedd a mwy. Mae Gwenno wedi bod yn ymladd dros yr achos am flynyddoedd ac wedi ysbrydoli canoedd o blant y Fro i ddefnyddio, caru ac i ddal yr iaith yn agos at eu calonnau. Diolch Gwenno.
Am flwyddyn brysur! Celf, canu, chwarae, cadw'n heini, chwerthin, cwisio, a phopeth yn y canol trwy gyfrwng y Gymraeg dros y Fro eang, o'r babanod bygi heini i'r oedolion yn y clwb darllen. Pob oedran a chefndir yn cael cyfle i ddefnyddio'r iaith yn hollol naturiol ym mhob cornel o'r Fro. Roedd Gŵyl Fach y Fro yn fwy llwyddiannus nag erioed ac mae'r digwyddiad anhygoel wedi sefydlu eu hun yng nghalendar blynyddol y Fro.
Amdani! Tuag at normaleiddio'r iaith ymhellach yn y Fro a hyrwyddo hanes, traddodiadau a dyfodol disglair y Gymraeg.
Diolch i staff a phwyllgor y Fenter, Cyngor Bro Morgannwg a Llywodraeth Cymru am eu cefnogaeth ariannol ac i'n holl bartneriaid a'n defnyddwyr cefnogol.
Rwy'n edrych ymlaen at yr her a'r llwyth o lwyddiannau sydd o'n blaenau rwy'n siŵr.



**ANNA BROWN**
**CADEIRYDD**

# GAIR GAN Y PRIF WEITHREDWR

Bu 2023/24 yn gyfnod o newid mawr i Fenter Bro Morgannwg. Wedi rhai blynyddoedd wrth y llyw fel Cadeirydd daeth diwedd cyfnod wrth i Gwenno Huws ildio'r awennau a throsglwyddo'r Gadeiryddiaeth i Anna Brown. Ar nodyn personol hoffwn ddiolch yn fawr i Gwenno am ei hymroddiad i'r Fenter dros y blynyddoedd a chroeso mawr i'n Cadeirydd newydd, Anna Brown, sydd mor angerddol dros weld parhad i dwf yr iaith ym Mro Morgannwg.

Bu 2023/24 yn gyfnod cyffrous i Fenter Bro Morgannwg wrth i ŵyl Fach y Fro barhau i ddatblygu a symud i leoliad mwy canolog ar Ynys y Barri gan ddenu cynulleidfa o dros 8,000. Bellach mae'r ŵyl yn un o brif wyliau y calendr diwylliannol Cymraeg ac yn denu bobl o bob cwr o Fro Morgannwg ac ymhellach. Hyfryd eleni oedd gweld ymrwymiad cymaint o grwpiau cymunedol, pob Ysgol Gymraeg a sawl ysgol ail iaith. Yn ogystal â diwrnod mawr yr ŵyl gwelwyd sawl wythnos o fwrlwm celfyddydol wrth arwain i fyny at yr wyl gyda phrosiectau cymunedol amrwyiol.

Unwaith eto eleni, gweithwyd yn agos gyda'n partneriaid ym Mro Morgannwg wrth i ni ddatblygu a chefnogi llu o weithgareddau cymunedol boed hynny yn grwpiau chwaraeon i blant ar y cyd gyda Urdd Gobaith Cymru neu yn weithgareddau ar y cyd gyda Dysgu Cymraeg y Fro. Braf oedd cael ymateb mor gadarnhaol i gynllun arloesol gyda Cyngor Tref y Barri wrth ariannu cynllun arbennig oedd yn annog siaradwyr newydd i fynychu digwyddiadau cymunedol Cymraeg megis gig arbennig gyda Mynediad am Ddim.

Mae ein diolch yn fawr i bawb a gefnogodd ein gwaith yn ystod y flwyddyn ac edrychwn ymlaen i barhau i gyfrannu at dwf y Gymraeg ym Mro Morgannwg yn 2024/25.

**PRIF WEITHREDWR - HEULYN REES**







# PRIF WASANAETHAU MENTER BRO MORGANNWG

## Clybiau Bwrwlm

## Darpariaeth Oedolion a Hamdden

## Gŵyl Fach y Fro

## Grymuso Cymunedau

## Gweithgareddau Cymunedol a theuluol

## Ffonlyfr

## Hyrwyddo Gweithgareddau a Chefnogi Sefydliadau






## Blaenoriaethau'r Rhaglen Waith 2023-24

- Ehangu ar y ddarpariaeth yng Ngŵyl Fach y Fro
- Cryfhau partneriaethau o fewn y Sir
- Datblygu darpariaeth i oedolion o fewn y Sir yn cynnwys digwyddiadau cerddorol, sesiynau addysgol a gweithgareddau lles
- Targedu rhieni ifanc gan hyrwyddo manteision addysg Gymraeg

# PLANT A PHOBL IFANC

Mae'r ddarpariaeth wedi bod yn amrywiol iawn yn ystod y flwyddyn yn cynnwys sesiynau chwarae agored mewn lleoliadau amrywiol ar draws y Fro, clybiau chwaraeon wythnosol, gweithdai, digwyddiadau celfyddydol, sesiynau amser stori a grwpiau i rieni a phlant.



GWEITHGAREDD 353

MYNYCHWYR: 6,310



# OEDOLION A'R GYMUNED

Parhawyd i gynnig darpariaeth amrywiol o weithgareddau i oedolion hyn. Mae'r ddarpariaeth wedi cynnwys elfennau megis sgyrsiau ar-lein, teithiau cerdded, gweithdai, perfformiadau cerddorol, dosbarthiadau addysg oedolion, gigs a llawer mwy.

Yn ogystal, mae nifer fawr o'r gweithgareddau wedi canolbwyntio ar fod yn hygrych i siaradwyr newydd.

GWEITHGAREDD 69

MYNYCHWYR 1,540






# IEUENCTID

Mae rhaglen amrywiol o weithgareddau wedi bod ar gyfer bobl ifanc yn cynnwys gweithdai celf yn arwain at Wyl Fach y Fro. Yn ogystal, mae rhaglen o weithgareddau rhanbarthol wedi cynnwys gigs ieuenctid a phrosiectau cerddorol. Darparwyd ffair yrfaoedd i ddisgyblion hyn yn ogystal â nifer o gyfleoedd cyflogaeth Cymraeg i fyfyrwyr ysgol yn ein cynlluniau Bwrwlm a swyddi yn Gŵyl Fach y Fro.

GWEITHGAREDD 15

MYNYCHWYR 849

# GŴYL FACH Y FRO 2023

**Braf oedd cael symud i leoliad mwy canolog ar Ynys y Barri a chroesawu rhai o artistiaid mwyaf blaenllaw Cymru yn cynnwys Tara Bandito a Gwilym. Cafwyd llwyth o fwrlwm celfyddydol yn arwain i fyny at yr wyl wrth greu cadeiriau haul a darnau graffiti enfawr. Roedd yr wyl yn ddathlaid arbennig o'r Gymraeg ym Mro Morgannwg ac yn fwy cynhwysol nag erioed wrth i holl ysgolion Cymraeg yr ardal gymryd rhan yn ogystal â nifer o ysgolion ail iaith a grwpiau perfformio cymunedol amrywiol.**

"MAE'N HYFRYD CAEL BOD YN RHAN O DDIGWYDDIAD CYMRAEG MOR LLWYDDIANNUS YN Y DRE LLE DW I'N BYW"

YMWELWYR:
8,000+

GWERTH ECONOMAIDD
£190,000+

9
BAND

20+
PARTNER











# DIOLCH I'N HOLL BARTNERIAID, NODDWYR, CEFNOGWYR A DEFNYDDWYR GWASANAETH!









**menterbromorgannwg.cymru**

Rhif elusen:1179555 Rhif Cwmni: 8867706


VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

MENTER IAITH
BRO MORGANNWG

Ariennir yn Rhannol gan
Lywodraeth Cymru
Part Funded by
Welsh Government